## Heddlu Dyfed-Powys...

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn diogelu pobl sy'n byw, gweithio, ac yn ymweld â Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys. Mae gan y sir ddiwydiant twristiaeth ffyniannus sy'n denu nifer fawr o dwristiaid. Mae'r boblogaeth mewn trefi allweddol megis Aberystwyth, Aberteifi, Caerfyrddin, Hwlffordd, Llanelli, y Drenewydd ac Aberhonddu yn chwyddo yn ystod y misoedd hyn, sy'n cyflwyno'i oblygiadau ei hun ar blismona'r ffyrdd, traffig a throsedd.

Yn ddaearyddol, ardal Heddlu Dyfed-Powys yw'r ardal fwyaf yng Nghymru a Lloegr. Mae'n ymestyn dros 4188 milltir sgwâr, gan gynnwys 350 milltir o arfordir. Mae'r ddaearyddiaeth yn cyflwyno heriau sylweddol; mae nifer o gymunedau gwledig arunig ynghyd â chanolfannau poblogaeth cymharol fach yn ymestyn o Dyddewi yn y gorllewin i Grucywel yn y dwyrain, i fyny i'r Trallwng yn y gogledd. Mae Doc Penfro'n darparu llwybr troseddol posibl rhwng tir mawr y DU ac Iwerddon, ac mae'r ardal fynyddig yn atal rhwydweithiau cyfathrebu.

Mae gan Heddlu Dyfed-Powys boblogaeth o 515,114 neu 221,858 o gartrefi sy'n wyn yn bennaf o ran lliw croen, gyda 2.02 % o'n poblogaeth o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Mae'n gallu i ddenu grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cael ei atal gan dangynrychiolaeth o fewn ein cymunedau.

Mae 31% o bobl yn siarad Cymraeg o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 19% ac mae angen i ni ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'n siaradwyr Cymraeg.

Mae ein gweithlu'n cynnwys 1,176 swyddog heddlu, 502 aelod staff, 147 swyddog cefnogi cymunedol a 157 cwnstabl gwirfoddol. Maent yn cynnwys asedau rheng flaen gweladwy yn ogystal â swyddogaeth cymorth ac arbenigol sy'n ymdrin ag ymchwiliadau niferus, difrifol a chymhleth. Yr her yw sicrhau bod ein gweithlu gweladwy yn y lle iawn ar yr amser iawn er mwyn atal trosedd ac adnabod troseddwyr a'u dwyn i gyfiawnder. I'w cefnogi â hyn, rydyn ni wedi buddsoddi mewn technoleg, gan gynnwys darllenwyr platiau rhif awtomatig wedi'u gosod yn strategol.

## HMIC...

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn darparu gwasanaethau plismona i ardaloedd Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys. Mae ardal yr heddlu yn cwmpasu 4,230 milltir sgwâr gydag oddeutu 350 milltir o arfordir yn ne-orllewin Cymru. Er bod yna rai ardaloedd mwy cefnog, mae gan Ddyfed-Powys lefel uchel o dlodi. Mae tua 0.5 miliwn o bobl yn byw mewn lleoliad gwledig yn bennaf. Mae gan yr ardal ardaloedd trefol penodol, yn cynnwys trefi Caerfyrddin, Llanelli, Aberdaugleddau ac Aberystwyth. Mae'r boblogaeth leol wedi ei chynyddu gan fyfyrwyr prifysgol a'r nifer fawr o bobl sy'n ymweld neu'n teithio trwy'r ardal pob blwyddyn. Mae'r seilwaith trafnidiaeth hefyd yn cynnwys porthladd pwysig.

Mae Cymru a Lloegr yn cynnwys dros 181,000 o ardaloedd bach a elwir yn ardaloedd allbwn cyfrifiad (OAs). Mae'r rhain wedi eu diffinio gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i grwpio pobl gyda nodweddion tebyg ynghyd ac i gynnwys, ar gyfartaledd, 125 o gartrefi. Mae maint yr ardal ddaearyddol a gwmpasir gan bob OA yn amrywio yn ôl dwyster y boblogaeth mewn gwahanol rannau o'r wlad. Mae'r OA mwyaf yng Nghymru a Lloegr yn cwmpasu 20,166 hectar, ac mae'r lleiaf yn llai na 0.02 hectar. Mae cae pêl-droed yn oddeutu 0.75 hectar.

Mae yna 1,695 OA yn Nyfed-Powys gyda maint cyfartalog o 647 hectar sy'n llawer mwy na'r cyfartaledd cenedlaethol o 87. Er bod lleiafrif (23 y cant) o OAs yn Nyfed-Powys yn gymharol fach dan 10 hectar, mae cyfran fwy (45 y cant) yn fawr iawn o ran maint (dros 100 hectar) gan ddynodi natur bennaf wledig yr ardal. Mae'r OAs lleiaf wedi eu lleoli yng Nghaerfyrddin, Llanelli, Aberdaugleddau ac Aberystwyth, gyda'r lledaeniad mwyaf o amgylch yr ardaloedd gwledig a mynyddig helaeth gyda'u poblogaeth wasgarog.

Mantais dadansoddiad ar lefel ardal allbwn yw ei fod yn cefnogi ymagwedd sy'n ffocysu ar yr unigolyn. Mae gwahaniaethau yn nodweddion economaidd gymdeithasol pobl sy'n byw mewn gwahanol OAs yn arwain at wahanol ymddygiadau, yn cynnwys defnydd o wasanaethau cyhoeddus. Adlewyrchir y gwahaniaethau hyn yn yr wybodaeth a gesglir mewn setiau data mawr fel y cyfrifiad, data pwyntiau diddordeb yr Arolwg Ordnans a ffynonellau lled-economaidd eraill a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad hwn.

Mae HMIC wedi bod yn gweithio gyda'r London School of Economics i ddefnyddio technegau econometreg i fodelu'n ystadegol ac i ragweld y lefel o alwadau adweithiol ar gyfer gwasanaethau'r heddlu ym mhob OA yng Nghymru a Lloegr. Gan ddefnyddio data digwyddiadau'r heddlu a nifer o filoedd o nodweddion (newidynnau) o ddata'r cyfrifiad, data pwyntiau diddordeb OS a setiau data eraill llai ar gyfer pob OA, mae wedi bod yn bosibl rhagweld y nifer o ddigwyddiadau ar gyfer pob OA ac i bennu pa mor heriol mae'n debygol fydd pob OA i'r heddlu. Rydym hefyd wedi

defnyddio prisiau tai o'r Gofrestrfa Tir fel dynodwr dirprwyol o gyfoeth. Mae gan Dyfed-Powys bris tai cyfartalog o £169,586 sy'n is na chyfartaledd Cymru a Lloegr (£254,549). Ac eithrio'r deg y cant lleiaf drud a'r deg y cant mwyaf drud o'r prisiau tai, mae yna wahaniaeth o 61 y cant rhwng y prisiau isaf ac uchaf yn ardal yr heddlu, sy'n awgrym o dlodi cymharol Dyfed-Powys.

Mae'r nifer a ragwelir o ddigwyddiadau ar gyfer pob OA yn amrywio'n sylweddol. Yn Nyfed-Powys, mae un y cant o'r OAs yn atebol am 11 y cant o'r galwadau mae'r heddlu yn eu gwasanaethu – mae hyn yn 0.1 y cant o gyfanswm ardal yr heddlu.

Mae crynodiad o alwadau a ragwelir mewn nifer fechan o OAs yn nodwedd o bob heddlu. Rydym wedi dynodi'r OAs hyn (oddeutu 1,800 ledled Cymru a Lloegr) fel her sylweddol iawn i'r heddlu. Mae'r meysydd hyn o her wedi eu nodweddu gan amddifadedd cymdeithasol neu grynodiad o eiddo masnachol (yn cynnwys eiddo trwyddedig), ac mewn rhai achosion y ddau.

O fewn Dyfed-Powys:

- mae'r gyfran o OAs sy'n her fawr iawn i'r heddlu yn seiliedig ar y lefel a ragwelir o droseddu yn is na'r lefel genedlaethol o un y cant;
- mae'r gyfran o OAs sy'n her fawr iawn i'r heddlu yn seiliedig ar y lefel a ragwelir o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gyffredinol yn unol â'r lefel genedlaethol o un y cant; ac
- mae'r gyfran o OAs sy'n her fawr iawn i'r heddlu ar gyfer y lefel a ragwelir o alwadau argyfwng a blaenoriaeth ar gyfer cymorth yn is na'r lefel genedlaethol o un y cant.

Fel arwydd o'r her i'r heddlu gyrraedd dinasyddion ym mhob rhan o Ddyfed-Powys, fe gyfrifom gyfartaledd yr amser teithio a phellter o bwynt canolog ardal yr heddlu i ganol pob un o'r 4,230 OA. Mae'r cyfrifiadau pellter ac amser hyn yn seiliedig ar ddefnyddio'r rhwydwaith ffordd dan amodau a chyflymder gyrru arferol ac yn rhoi dynodiad o faint yr ardal ac ansawdd ei rwydwaith ffyrdd.

Mae gan Ddyfed-Powys 805 milltir o draffyrdd a phriffyrdd; mae'r pellter teithio cyfartalog o 38 milltir (yr hiraf yw 103 a'r byrraf yw 0.6 milltir) ac mae'r cyfartaledd amser teithio o 68 munud yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol cymharol o 17 milltir a 30 munud. Mae hyn yn arddangos maint a chymhlethdod Dyfed-Powys a natur ei ffyrdd.

Er y gallai'r crynodiad o alwadau mewn nifer fechan o leoliadau (yn cwmpasu ardal fechan iawn) fod yn ddefnyddiol o ran ffocysu adnoddau, nid hyn yw cyfanswm y galw. Mae darpariaeth gwasanaethau yn ymestyn tu hwnt i'r ardaloedd hynny sy'n her sylweddol i'r heddlu ac yn cynnwys yr ardaloedd mwyaf heriol a mwyaf gwledig.

Mae'r her o ddarparu gwasanaethau ar draws Dyfed-Powys yn swyddogaeth i nifer o bethau, yn cynnwys maint a thopograffi'r ardal, y rhwydwaith ffyrdd a pha mor dagfaol yw'r rhwydwaith ffyrdd. Mae'r ystyriaethau hyn yn dylanwadu ar sut y trefnir a rheolir adnoddau'r heddlu, er enghraifft, ble mae swyddogion yr heddlu wedi eu lleoli a'u patrymau gwaith.